**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 16 Mawrth 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | F M Gordon | L R Jones |
| H Lawson | S Pritchard | D W W Thomas |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd R V Smith (Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau)
Emily Marchant (Cymrawd Ôl-ddoethurol y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac Ymchwilydd Iechyd ac Addysg Plant- Prifysgol Abertawe)
Dylan Saer (Pennaeth - Ysgol Gynradd y Crwys)

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |
| Melisa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins, M A Langstone a/ac M B Lewis

---

## 36 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 37 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2022 fel cofnod cywir.

## 38 Addysg Awyr Agored

Rhoddodd Emily Marchant drosolwg byr o'i chefndir a'i phrofiad yn y maes pwnc, yna rhoddodd gyflwyniad manwl a chynhwysfawr am Ddysgu yn yr Awyr Agored a chanfyddiadau ymchwil Rhwydwaith Addysg Gynradd HAPPEN ym Mhrifysgol Abertawe.

Yn gynwysedig yn y cyflwyniad roedd y meysydd canlynol:

- Gall buddsoddi mewn profiad dysgu plentyn gynyddu cyflawniad yn y dyfodol, cyfleoedd gwaith ac iechyd a lles yn ystod oedolaeth;
- Effaith COVID-19, a'r anghydraddoldebau cynyddol mewn iechyd, lles, datblygiad a dysgu plant;
- Datblygu rhwydweithiau mewn ysgolion, ymgynghorwyr ysgolion iach, effaith y cwricwlwm newydd wrth symud ymlaen;
- Rhwydwaith HAPPEN, sy'n seiliedig ar ysgolion cynradd ac sy'n ceisio uno addysg, iechyd ac ymchwil, a datblygu dealltwriaeth well o anghenion ysgolion a thargedu meysydd iechyd a lles penodol;
- Mae 500 o ysgolion ar draws Cymru wedi cymryd rhan gyda thros 20,000 o ddisgyblion yn cymryd rhan;
- Mynediad at fanc data SAIL sy'n cynnwys amrywiaeth eang o wybodaeth ar draws maes iechyd ac addysg fel pwysau geni, brechiadau, magu plant, materion iechyd teuluol, cyrhaeddiad addysgol etc.;
- Mae'r rhwydwaith hefyd yn sail ar gyfer casglu gwybodaeth am raglenni a mentrau gwahanol a gynhelir mewn ysgolion;
- Cynhaliwyd arolwg disgyblion HAPPEN gartref yn ystod y cyfnod clo a'r cyfnodau y bu'r ysgol ar gau a oedd yn ceisio cymharu iechyd a lles plant yn ystod y cyfnod y bu'r ysgol ar gau yn 2020 â'r un cyfnod yn 2019 a 2018. Roedd hefyd yn ceisio archwilio'r effaith ar garfan y disgyblion sy’n derbyn prydau ysgol am ddim;
- Roedd canlyniadau'r arolwg yn nodi effaith gadarnhaol a chynnydd yng ngweithgarwch corfforol plant, ond effaith negyddol ar gymhwysedd ysgol hunan-adroddedig, yn enwedig y rheini sy'n derbyn prydau ysgol am ddim;
- Mae ehangu anghydraddoldebau a mynediad i fannau awyr agored wedi'i leihau dros y blynyddoedd;
- Arolwg staff HAPPEN a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2020 i gasglu safbwynt staff ysgolion cynradd am effaith cau ysgolion, ailagor ysgolion fesul cam a dychwelyd at addysg amser llawn ym mis Medi 2020. Cwblhawyd yr arolwg gan dros 200 o staff o 78 o ysgolion cynradd ar draws 16 o awdurdodau lleol yng Nghymru (Penaethiaid, athrawon a staff cymorth);
- Datblygodd yr ymatebion ac adborth a ddarparwyd gan staff 5 argymhelliad allweddol - Blaenoriaethu iechyd a lles staff a disgyblion, canolbwyntio ar gynnwys rhieni a chymorth, gwella cymhwysedd digidol disgyblion, athrawon a rhieni, addasu'r amgylchedd dysgu a dysgu ac arferion addysgu a chyfathrebu arweiniad a disgwyliadau'n glir;
- Cydnabyddiaeth gynyddol o fanteision dysgu awyr agored ac mae disgyblion sy'n cymryd rhan yn dangos mwy o ddiddordeb;
- Gwerthusiad ansoddol o ddysgu yn yr awyr agored yn seiliedig ar y cwricwlwm a gynhelir mewn tair ysgol gynradd yn Abertawe cyn sefydlu Ysgolion Awyr Agored Abertawe a oedd yn cynnwys cyfweliadau ag athrawon a phenaethiaid, grwpiau ffocws gyda disgyblion i archwilio'r rhwystrau a'r hwyluswyr i roi dysgu yn yr awyr agored ar waith yn effeithiol;
- Manteision plant yn treulio amser yn yr awyr agored a'r effaith gadarnhaol ar ddysgu - rhyddid o'r ystafell ddosbarth, ymgysylltu â natur, presenoldeb gwell, dangos mwy o ddiddordeb, canolbwyntio ac ymddwyn yn well;
- Manteision ehangach dysgu a chwarae yn yr awyr agored;
- Rhwystrau sy'n atal ehangu;

- Adroddiad Estyn am ddysgu yn yr awyr agored yn Ysgol Gynradd y Crwys;

Yna rhoddodd Dylan Saer drosolwg o'r ddarpariaeth y mae wedi'i datblygu dros y blynyddoedd yn Ysgol Gynradd y Crwys.

Amlinellodd nad oedd gan yr ysgol ardal werdd benodol ei hun, ond maent yn elwa o ddefnyddio'r coetir cyfagos gyda chymorth y cyngor cymuned lleol.

Nododd oni bai fod tywydd garw iawn, y nod yw bod y plant yn treulio hanner diwrnod yr wythnos yn yr awyr agored. Nododd fod y rhieni a disgyblion wedi 'prynu i mewn' i'r syniad yn dda iawn a gellir gweld manteision y fenter dysgu yn yr awyr agored trwy ymgysylltu'n fwy a gwell presenoldeb disgyblion a chanlyniadau gwych yng nghyfnod allweddol 2.

Manylodd ar y canlyniad gwych a'r sylwadau a wnaed yn benodol tuag at y ddarpariaeth addysg awyr agored yn arolygiad Estyn a gynhaliwyd cyn y pandemig.

Gofynnodd aelodau gwestiynau amrywiol a gwnaed sylwadau ynghylch yr wybodaeth a gyflwynwyd iddynt yn ystod y cyflwyniadau a'r drafodaeth ac ymatebodd Emily a Dylan i'r rheini'n briodol.

Diolchodd y Cadeirydd a'r aelodau i'r ddau am eu presenoldeb a'u mewnbwn.

**39 Cynllun Gwaith 2020 - 2021.**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynllun gwaith fel a manylwyd arno yn yr adroddiad.

Nododd y byddai adroddiad yn crynhoi gwaith ac archwiliadau'r pwyllgor yn ystod y flwyddyn yn cael ei ddrafftio a'i gyflwyno yn ystod cyfarfod yn y dyfodol.

**Penderfynwyd** nodi'r cynllun gwaith

Daeth y cyfarfod I ben am 5.01 pm

**Cadeirydd**